Minutes of the Wylfa Site Stakeholder Group held on Thursday 19 May 2016 in the Eleth/Eilian Rooms

Site Stakeholder Group

Present	
Cllr Aled M Jones	IOACC Twrcelyn Ward (Chair)
Stuart Law	Site Director, Wylfa
Michelle Humphreys	Magnox Wylfa
Jill Callander	Magnox, SSG Secretariat Co-ordinator
Aled Rowlands	IOACC
Cllr Ken P Hughes	IOACC Talybolion Ward
Cllr Meg Roberts	Amlwch Town Council
Mike Dodd	Wylfa Retirees / Public
Cllr G W Roberts	Amlwch Town Council (Vice Chair)
Rona Arkle	Environment Agency / Natural Resources Wales
Terri Atkinson	Environment Agency
Gareth Jones	Resident
Tim Poole	CPRW
Cllr Jac H Jones	Mechell Community Council
Gwyn Hughes	NWC Reps
Jonathan Williams	NWC Reps
Cllr J Griffith	IOACC Talybolion Ward
Deborah Ward	NDA
Thomas Conway	Wylfa Retirees Association
Cllr Derek Owen	Llanbadrig Community Council
Paul Wright	Natural Resources Wales
Manon Wyn Francis	IOACC – EIP
Mark Elsworth	Magnox, Wylfa
Mark Saunders	Magnox SJC
Cllr W T Hughes	IOACC Twrcelyn Ward
Cllr Llinos Medi Huws	IOACC Talybolion Ward
Beverley Grey	Magnox, Business Director
Laura Page	Magnox, Wylfa
Cllr Tom Jones	Cylch y Garn Community Council
Mr Henry Jordan	Federation of Small Businesses
G Jones	Resident
Gordon Warren	Bull Bay Community

1. Welcome and receive apologies for absence

Cllr Aled M Jones welcomed everyone to the meeting at 3.00pm and apologies were received from:

Mrs Annette Jones, Anglesey Federation of WI
Merddyn Owens, Amlwch Town Council
Richie Hughes, Cyngor Cymuned Mechell
Nick Blackburn, ONR
Lowri Joyce, Regional Stakeholder Relations Manager, Hitachi Europe Ltd
Richard Foxhall, Horizon Nuclear Power
Albert Owen MP

Dylan Williams, Head of Regeneration and Econ, Development, Anglesey Council
Chris Thomas, Senior Radiological Safety Officer, Food Standards Agency
Helen and Robin Grove White
Cllr Richard Owain Jones
Rhun ap Iorwerth, Assembly Member Ynys Môn

SSG secretariat co-ordinator Jill Callander was welcomed as the new point of contact for the group, Jill also looks after another 7 sites as well as Wylfa. New members were also welcomed to the meeting – Beverley Grey, Business Director, Magnox Executive, Meg Roberts representing Merddyn Owens, Amlwch Town Council and Manon Wyn Francis representing Mr Dylan Williams, Head of Regeneration and Economic Development, Anglesey Council.

2. To approve the minutes of the 4 February 2016 meeting

The minutes were approved as a true and correct record by Cllr Gareth Winston Roberts and seconded by Cllr William Hughes.

3. Matters arising from the previous minutes

The Chair stated that a presentation by Radioactive Waste Management (RWM)/DECC would be given in the next meeting, to update the Group with regards to the deep geological depository.

In response to a question from Cllr Gareth Winston Roberts, Michelle Humphreys explained that the Magnox Socio-economic Plan 2016-19 was expected within the next week or so which should have a response within it regarding the classification of Wylfa as a high or medium funding priority site; the plan would also be available on the website. Over 70 responses to the plan's consultation had been carefully considered and a document with all the consultation responses and feedback would be included.

In response to a question from Cllr. Tom Jones regarding the remaining £128k in the Magnox Socio-economic fund, Michelle Humphreys reported that all but £16 had now been allocated.

4. To receive the SSG Chairman's Report

Aled M Jones presented his report. Since the last meeting, he had met with Kelley Duane, Magnox Communications Director.

A Good Neighbour budget of £6,000 was available per site. However, further funding could be made available on a case by case basis if a site exceeded this limit.

Details of the new structure of SSG secretariat was given, with two people giving support; this was a positive step forward. Meetings were taking place on a quarterly basis with Magnox and these were greatly appreciated.

The Chair reported that he had attended the Anglesey Day in London on the 19 April, which was very successful, and expressed his gratitude to Albert Owen for the day.
The Chair had attended a workshop on decommissioning in Manchester on 17 May.

The Chair stated that it was a great honour to be re-elected to the Chair. It was very important work, to achieve a lasting legacy for island projects. He thanked Wylfa staff and Jill Callander for their work.

5. To Elect Vice Chair

Jill Callander took the item. There had been no contest for the position of Chair so Cllr Aled M Jones had been re-elected for 2 years. Gareth Winston Roberts and John Griffiths had been nominated for the position of Vice Chair and voting slips were handed out to members present. A show of hands/slips ballot took place and Cllr Gareth Winston Roberts was elected as Vice Chair having received the majority of votes. Cllr Gareth Winston Roberts thanked members present for their votes; Cllr John Griffiths also thanked members for their support and wished Cllr Griffiths well in the position.

6. To receive the Site Director's Report

Stuart Law presented the report that had been circulated prior to the meeting.

He reported that 90 people would be leaving the site in May/June. Managing the transition of staff was the site's biggest challenge, with only a few of the 90 people having to look for work. The reorganisation of the staff had almost met people's aspirations, with approx. 20 people moving over to Trawsfynydd.

The 100 day outage period was now over and the site was at the stage of finalising arrangements to allow transition to the defuelling phase. All control rods had now been isolated. Post operational cleanout activities were described, i.e. chemicals/oils no longer required on site, and a slide show showing photographs of these was shown. The new emergency scheme was described and a joint nuclear safety exercise had been carried out to the new arrangement. The work done on the cleanout in removing the hazards had ultimately decreased hazard risks on site. One particular event, reported at previous meeting, identified a fan that was running backwards; this had been identified as human error. Remedial action has been taken to prevent further issues.

Maentwrog electricity generation had been good due to the amount of rainfall and had had its best operating year ever of 2015/16.

A team of Doosan Babcock contractors had spent a day at Penrhos Stanley Hospital, Holyhead to tidy up the garden as part of an annual employee volunteering campaign.

Questions:

John Wyn Griffith expressed concern at the significant reduction in security staff on site and asked for assurance that the site was protected from extremist activity. Stuart Law responded that 100% security could not be guaranteed by anyone, however, the Civil Nuclear Constabulary had departed in April and Wylfa's own guard force was now in place. Risks had been assessed, with two additional guards put in place. Some additional (confidential) physical changes had been made and authorities were content with these arrangements. The Chair stated that he had sought assurances on this also and was satisfied with the situation.

In response to a question from Tom Jones, Stuart Law stated that effluent discharges from site are within regulatory parameters. The cost of running the CW pumps was great, so a new pipe, located 350m out in the tidal current, was being installed. Drilling had been carried out into the sea bed and the new pipe had been physically fitted but not connected. The new tidal flow system will replace the CW pump. Discharges were very much reduced since the shutdown. Gareth Winston Roberts acknowledged that there was a much lower risk form the site now, however it was sad to see the site shutting down and this was not easy for employees. He thanked the workers for their contribution. The union representative present was asked to pass this message on to staff at their next Staff Joint Council Meeting.

7. Nuclear Decommissioning Authority Update – NDA Updates circulated.

Deborah Ward presented the May 2016 Update, circulated at the meeting, and drew attention to the publication of the new 5 year NDA Strategy and shorter term Business Plan; hard copies of which were available to everyone present. These could also be found online.

A lot of work was currently taking place in Sellafield, mainly with changes in the management structure. Sellafield had now become a subsidiary of the NDA. In tandem with that, major facilities and silos had had work done on them. This had greatly reduced radioactivity at the site.

It was reported that £12million had been awarded to Consortia for research.

A Government incentive had begun, to form a hub in Sellafield and Hinkley Point to develop skills for young people.

With regard to staffing, Paul Valance had been newly appointed as Communications and Socio-economic Director.

Questions:

Tom Conway sought clarification on the processing of submarine fuel, thought to be processed in Sellafield. Deborah Ward added that she could not report on this as it was a MOD matter. Tom Conway was invited to submit a written request for further information to the NDA.

Tom Jones asked for more details on the smaller business mentoring scheme that had closed in April this year. Deborah Ward added that a lot of responses had been received from mentors but fewer from those wishing to be mentored. There was a SME steering group and an event in Manchester on 3 November that was free to attend for those interested. An example was given of two SMEs on Anglesey who were already involved in working with Wylfa. The Chair suggested that an email from the NDA be sent to SMEs when opportunities or supply chain events became available. Deborah confirmed that all NDA events were advertised on the website. The contracts on offer were often quite large and it was difficult for smaller companies to become involved.

Gareth Winston Roberts asked whether there was collaboration with Horizon Nuclear Power (HNP), as he believed this was important. In response, it was confirmed that the NDA was in contact with HNP. From a Magnox perspective, an enabling arrangement was in place with HNP, looking at collaboration with them from the new-build perspective and to facilitate the step across for staff from Magnox to HNP. From a supply-chain point of view, Magnox was a public company and HNP a private one, meaning each was regulated in a different way. Gareth Winston Roberts believed that from a socio economic perspective, both ran in parallel, and it was important for North West Wales in that its people needed the work to regenerate and improve employment locally.

It was reported that the Wylfa Site Director sat on the Welsh Government Task Force whose remit is to consider the socio-economic impact of job reductions at Wylfa and Trawsfynydd. Consideration was given to an ARUP report recently. Magnox, Hitachi and HNP are part of the group. Recommendations are to be passed via the group to the Welsh Assembly.

In response to a question from Meg Roberts with regard to whether the site would be returned to green field. It was explained that Magnox's current position was to remove fuel over next 3 years, and by the end of 2018 hazardous items would be gone, with demolition to be completed in 2027. The fabric of the reactor building would remain and would be monitored in order to have the least possible effect on the environment, however plans for landscaping with trees were not yet confirmed. Tom Conway commented on the encouragement for employment of local firms in carrying out this

work and that currently there was no control of who the companies employed i.e. foreign workers. The Chair stated that this subject would not be discussed at this forum.

8. Office for Nuclear Regulation Update

Nick Blackburn's report was received. Action - Jill Callander to request an ONR representative to attend the next meeting.

9. Natural Resources Wales Update

Paul Wright presented the report received that day, which would be circulated electronically to members after the meeting. The Environment Agency did the work on their behalf and Rona Arkle was invited to speak. She reported that inspections had been done recently to look at arrangements put in place with regard to the discharge pipeline. The Environment Agency had seen good environmental controls in place during their visit and work had been completed without any environmental events. The agency had also recently received a useful update from the waste team. Work on permits had been underway by the agency also. The Environment Agency had been informed of the fan as reported earlier in the meeting, which had been followed up.
NRW and the EA were thanked for their report.

There were no questions.

10. Update from Wylfa Waste Manager

The item was deferred to the next meeting.

11. Socio Economic Scheme Update

Michelle Humphreys presented the report as per the meeting pack and highlighted Wylfa's financial position. £30.1 million had been attracted in match funding.

12 community groups had benefited from the £6,000 Good Neighbour fund.

Details of the Anglesey Agricultural Showground funding was highlighted, a project partly funded by Wylfa's socio economic scheme, towards installation of new heating, seating, pavilion extension, toilets, changing rooms and lighting. It was envisaged that this would attract an additional 50k visitors to Anglesey and have an economic benefit of £1million.

An info-graphic of the Socio Economic scheme's highlights had been printed and a copy made available to everyone present.

A company structure reorganisation had taken place and Mair Jones would be taking over socio economic matters. Michelle Humphreys would take on a new role of Regional Communications Officer for Wylfa and Trawsfynydd. The Chair thanked Michelle for her work and wished her well in the future.

An observation was received from Meg Roberts with regard to the Môn Communities First - Driving Skills Programme and Construction Skills Test Centre, showing concern that this would undermine the current livelihood of existing businesses. Michelle Humphreys explained that the driving instructor would only be working two days a week and also teaching mechanics on a part time basis.

Gareth Winston Roberts thanked staff for the time and effort with the Socio Economic scheme and stated that it was valuable for the island's economy,

12. Open Forum Question and Answer Session

There were no further questions.

13. Any Other Business

There was no other business.

14. Next Meeting – To be held on 6th October 2016

The meeting closed at 16.03.

Cofnodion Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa a gynhaliwyd ddydd Iau 19 Mai 2016 yn Ystafelloedd Eleth/Eilian

Site Stakeholder Group

Yn bresennol:	
Y Cyng. Aled M Jones	Cyngor Sir Ynys Môn – Ward Twrcelyn (Cadeirydd)
Stuart Law	Cyfarwyddwr Safle, Wylfa
Michelle Humphreys	Magnox Wylfa
Jill Callander	Magnox, Cydlynydd Ysgrifenyddiaeth y Grŵp Rhanddeiliaid Safle
Aled Rowlands	Cyngor Sir Ynys Môn
Y Cyng. Ken P Hughes	Cyngor Sir Ynys Môn – Ward Talybolion
Y Cyng. Meg Roberts	Cyngor Tref Amlwch
Mike Dodd	Cymdeithas Gweithwyr wedi Ymddeol Wylfa / Y Cyhoedd
Y Cyng. G W Roberts	Cyngor Tref Amlwch (Is-gadeirydd)
Rona Arkle	Asiantaeth yr Amgylchedd / Cyfoeth Naturiol Cymru
Terri Atkinson	Asiantaeth yr Amgylchedd
Gareth Jones	Preswylydd
Tim Poole	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig
Y Cyng. Jac H Jones	Cyngor Cymuned Mechell
Gwyn Hughes	Cynrychiolydd NWC
Jonathan Williams	Cynrychiolydd NWC
Y Cyng. J Griffith	Cyngor Sir Ynys Môn – Ward Talybolion
Deborah Ward	Yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA)
Thomas Conway	Cymdeithas Gweithwyr wedi Ymddeol Wylfa
Y Cyng. Derek Owen	Cyngor Cymuned Llanbadrig
Paul Wright	Cyfoeth Naturiol Cymru
Manon Wyn Francis	Cyngor Sir Ynys Môn – Rhaglen Ynys Ynni
Mark Elsworth	Magnox, Wylfa
Mark Saunders	Cyd-gyngor Safle Magnox
Y Cyng. W T Hughes	Cyngor Sir Ynys Môn – Ward Twrcelyn
Y Cyng. Llinos Medi Huws	Cyngor Sir Ynys Môn – Ward Talybolion
Beverley Grey	Magnox, Cyfarwyddwr Busnes
Laura Page	Magnox, Wylfa
Y Cyng. Tom Jones	Cyngor Cymuned Cylch y Garn
Mr Henry Jordan	Ffederasiwn Busnesau Bach
G Jones	Preswylydd
Gordon Warren	Cymuned Porth Llechog

1. Gair o groeso a derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb

Croesawodd y Cyng. Aled M Jones bawb i'r cyfarfod am 3.00pm a derbyniwyd ymddiheuriadau gan:

Mrs Annette Jones, Ffederasiwn Sefydliad y Merched Ynys Môn
Merddyn Owens, Cyngor Tref Amlwch
Richie Hughes, Cyngor Cymuned Mechell
Nick Blackburn, ONR
Lowri Joyce, Rheolwr Cysylltiadau Rhanddeiliaid Rhanbarthol, Hitachi Europe Ltd
Richard Foxhall, Pŵer Niwclear Horizon

Albert Owen, Aelod Seneddol
Dylan Williams, Pennaeth Datblygu Economaidd ac Adfywio, Cyngor Sir Ynys Môn
Chris Thomas, Uwch Swyddog Diogelwch Radiolegol, yr Asiantaeth Safonau Bwyd
Helen a Robin Grove White
Y Cyng. Richard Owain Jones
Rhun ap Iorwerth, Aelod Cynulliad dros Ynys Môn

Croesawyd Jill Callander, Cydlynydd Ysgrifenyddiaeth y Grŵp Rhanddeiliaid Safle, fel pwynt cyswllt newydd y grŵp. Mae Jill yn gofalu am 7 safle arall yn ogystal â Wylfa. Croesawyd aelodau newydd hefyd – Beverley Grey, Cyfarwyddwr Busnes, Gweithrediaeth Magnox, Meg Roberts yn cynrychioli Merddyn Owens, Cyngor Tref Amlwch a Manon Wyn Francis yn cynrychioli Mr Dylan Williams, Pennaeth Datblygu Economaidd ac Adfywio, Cyngor Sir Ynys Môn.

2. Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Chwefror 2016

Cynigiwyd bod y cofnodion yn gofnod gwir a chywir gan y Cyng. Gareth Winston Roberts ac eiliwyd hyn gan y Cyng. William Hughes.

3. Materion yn codi o'r cofnodion blaenorol

Dywedodd y Cadeirydd y byddai Radioactive Waste Management (RWM)/yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd yn rhoi cyflwyniad yn y cyfarfod nesaf er mwyn diweddaru'r Grŵp ynghylch gwaredu daearegol dwfn.

Ymatebodd Michelle Humphreys i gwestiwn gan y Cyng. Gareth Winston Roberts, gan egluro y gellid disgwyl Cynllun Economaidd-gymdeithasol Magnox 2016-19 yn yr wythnos neu ddwy nesaf. Fe ddylai gynnwys ymateb ynghylch ai safle blaenoriaeth uchel ynteu ganolig yw Wylfa o safbwynt cyllid; byddai'r cynllun ar gael ar y wefan hefyd. Roedd dros 70 o ymatebion i ymgynghoriad y cynllun wedi cael eu hystyried yn ofalus, a byddai dogfen gyda'r holl ymatebion a'r adborth yn cael ei chynnwys.

Gan ymateb i gwestiwn y Cyng. Tom Jones ynghylch y £128k yng nghronfa Economaidd-gymdeithasol Magnox, dywedodd Michelle Humphreys fod pob ceiniog heblaw am £16 wedi cael ei rannu erbyn hyn.

4. Derbyn Adroddiad Cadeirydd y Grŵp Rhanddeiliaid Safle

Cyflwynodd Aled M Jones ei adroddiad. Ers y cyfarfod diwethaf, roedd wedi cael cyfarfod â Kelley Duane, Cyfarwyddwr Cyfathrebu Magnox.

Roedd cyllideb 'Cymydog Da' o £6,000 ar gael i bob safle. Fodd bynnag, byddai modd cynnig rhagor o gyllid ar sail achos os byddai safle yn mynd dros y trothwy hwn.

Rhoddwyd manylion am strwythur newydd Ysgrifenyddiaeth yr SSG, gyda dau unigolyn yn rhoi cymorth; roedd hyn yn gam cadarnhaol ymlaen. Roedd cyfarfodydd yn cael eu cynnal gyda Magnox bob chwarter ac roeddent yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr.

Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi bod yn y Diwrnod Ynys Môn yn Llundain ar 19 Ebrill, a oedd yn llwyddiannus iawn. Diolchodd i Albert Owen am y diwrnod.
Roedd y Cadeirydd wedi bod mewn gweithdy ar ddatgomisiynu ym Manceinion ar 17 Mai.

Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn teimlo'n freintiedig iawn ei fod wedi cael ei ail-ethol. Roedd sicrhau gwaddol a fydd yn parhau i brosiectau Ynys Môn yn waith pwysig. Diolchodd i staff Wylfa ac i Jill Callander am eu gwaith.

5. Ethol Is-gadeirydd

Rhoddwyd yr eitem hon yn nwylo Jill Callander. Nid oedd cystadleuaeth ar gyfer swydd y Cadeirydd felly roedd y Cyng. Aled M Jones wedi cael ei ail-ethol am ddwy flynedd arall. Roedd Gareth Winston Roberts a John Griffiths wedi cael eu henwebu ar gyfer rôl yr Is-gadeirydd a rhannwyd slipiau pleidleisio i'r aelodau a oedd yn bresennol. Ar ôl dangos dwylo/pleidleisio drwy bapur etholwyd y Cyng. Gareth Winston Roberts yn Is-gadeirydd ar ôl cael y nifer fwyaf o bleidleisiau. Diolchodd y Cyng. Gareth Winston Roberts i'r aelodau am eu pleidleisiau; diolchodd y Cyng. John Griffiths hefyd i'r aelodau am eu cefnogaeth, a dymunodd yn dda i'r Cyng. Griffiths.

6. Derbyn Adroddiad y Cyfarwyddwr Safle

Cyflwynodd Stuart Law yr adroddiad a oedd wedi cael ei rannu cyn y cyfarfod.

Dywedodd y byddai 90 o bobl yn gadael y safle ym mis Mai/Mehefin. Rheoli'r gwaith o symud staff oedd her fwyaf y safle, gyda dim ond ambell un o'r 90 yn gorfod chwilio am waith. Roedd y broses o ad-drefnu staff bron â bodloni dyheadau pobl, gydag oddeutu 20 o bobl yn symud i safle Trawsfynydd.

Roedd y cyfnod segur 100 diwrnod wedi dod i ben erbyn hyn ac roedd y safle wrthi'n cwblhau'r trefniadau ar gyfer symud ymlaen i'r cyfnod gwagio tanwydd. Roedd y rodiau rheoli i gyd wedi cael eu hynysu erbyn hyn. Disgrifiwyd y gweithgareddau glanhau ar ôl y cyfnod gweithredol, h.y. y cemegau/olew nad oedd eu hangen ar y safle erbyn hyn, a dangoswyd lluniau o'r rhain ar sioe sleidiau. Disgrifiwyd y cynllun brys newydd ac roedd ymarfer diogelwch niwclear ar y cyd wedi cael ei gynnal yn unol â'r trefniadau newydd. Roedd y gwaith a wnaed i gael gwared ar y deunyddiau peryglus, yn y pen draw, wedi lleihau'r risgiau ar y safle. Soniwyd yn y cyfarfod diwethaf am ffan a oedd

yn mynd am yn ôl; camgymeriad dynol oedd hyn erbyn gweld. Roedd camau wedi cael eu cymryd i atal rhagor o broblemau.

Yn sgil yr holl law oedd wedi disgyn, roedd lefelau cynhyrchu trydan Maentwrog wedi bod yn dda, a 2015/16 oedd y flwyddyn orau erioed iddynt.

Roedd tîm o gontractwyr Doosan Babcock wedi treulio diwrnod yn Ysbyty Penrhos Stanley, Caergybi, yn tacluso'r ardd fel rhan o ymgyrch wirfoddoli flynyddol.

Cwestiynau:

Mynegodd John Wyn Griffith bryder am y gostyngiad sylweddol yn nifer y staff diogelwch ar y safle, a gofynnodd am sicrwydd bod y safle'n ddiogel rhag eithafwyr. Ymatebodd Stuart Law drwy ddweud nad oes modd i neb sicrhau diogelwch llwyr, ond roedd yr Heddlu Niwclear Sifil wedi gadael fis Ebrill ac roedd tîm gwarchod Wylfa ei hun yn gyfrifol erbyn hyn. Roedd risgiau wedi cael eu hasesu ac roedd dau gard arall wedi cael eu hychwanegu. Roedd ambell newid ychwanegol (cyfrinachol) wedi cael ei wneud ac roedd yr awdurdodau'n fodlon â'r trefniadau hyn. Dywedodd y Cadeirydd ei fod yntau wedi gofyn am sicrwydd ynglŷn â'r mater hwn a'i fod yn fodlon â'r sefyllfa.

Gan ymateb i gwestiwn gan Tom Jones, dywedodd Stuart Law fod gollyngiadau elifol o'r safle o fewn terfynau rheoleiddiol. Roedd y gost o redeg y pympiau CW yn uchel, felly roedd pibell newydd wrthi'n cael ei gosod 350m allan yn llif y llanw. Ar ôl gwaith drilio ar wely'r môr, roedd y bibell newydd wedi cael ei gosod ond nid oedd wedi cael ei chysylltu eto. Bydd y system llif llanw newydd yn cymryd lle'r pwmp CW. Roedd y gollyngiadau wedi lleihau'n sylweddol ers diffodd yr adweithydd. Roedd Gareth Winston Roberts yn cydnabod bod y safle yn peri llai o risg o lawer erbyn hyn, ond roedd yn drist ganddo weld y safle'n cau, ac roedd yn gweld nad oedd hyn yn hawdd i'r gweithwyr. Diolchodd i'r gweithwyr am eu cyfraniad. Gofynnwyd i gynrychiolydd yr undeb a oedd yn bresennol drosglwyddo'r neges i'r staff yng Nghyfarfod Cyd-gyngor nesaf y staff.

7. Diweddariad gan yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear – rhannwyd taflenni newyddion diweddaraf yr NDA

Cyflwynodd Deborah Ward Ddiweddariad Mai 2016, a ddosbarthwyd yn y cyfarfod, a thynnodd sylw at gyhoeddi Strategaeth 5 mlynedd newydd yr NDA a'r Cynllun Busnes ar gyfer y tymor byrrach; roedd copi papur ar gael i bawb a oedd yn bresennol. Roeddent ar gael ar-lein hefyd.

Roedd llawer o waith yn digwydd yn Sellafield ar hyn o bryd, yn bennaf o ran newidiadau i'r strwythur rheoli. Roedd Sellafield wedi dod yn un o is-gwmnïau'r NDA erbyn hyn. Ochr yn ochr â hynny, roedd gwaith wedi'i wneud ar gyfleusterau a seilos pwysig. Roedd hyn wedi lleihau lefelau ymbelydredd ar y safle yn sylweddol.

Adroddwyd bod £12 miliwn wedi cael ei roi i Consortia ar gyfer gwaith ymchwil.

Roedd gwaith wedi dechrau ar gynllun gan y Llywodraeth i ffurfio canolfan yn Sellafield a Hinkley Point i ddatblygu sgiliau pobl ifanc.

O ran staff, roedd Paul Valance newydd gael ei benodi'n Gyfarwyddwr Materion Economaidd-gymdeithasol a Chyfathrebu.

Cwestiynau:

Gofynnodd Tom Conway am eglurhad ynghylch prosesu tanwydd llongau tanfor yn Sellafield. Dywedodd Deborah Ward nad oedd modd iddi sôn am hyn gan mai mater i'r Weinyddiaeth Amddiffyn ydoedd. Gwahoddwyd Tom Conway i gyflwyno cais ysgrifenedig i'r NDA am ragor o wybodaeth.

Gofynnodd Tom Jones am ragor o fanylion ynghylch y cynllun mentora busnesau llai a oedd wedi dod i ben fis Ebrill eleni. Ychwanegodd Deborah Ward fod llawer o ymatebion wedi dod i law gan fentoriaid ond llai gan unigolion oedd yn dymuno cael eu mentora. Roedd grŵp llywio busnesau bach a chanolig a digwyddiad yn cael eu cynnal ym Manceinion ar 3 Tachwedd, am ddim i unrhyw un â diddordeb. Rhoddwyd enghraifft o ddau fusnes bach a chanolig ar Ynys Môn a oedd eisoes yn gweithio gyda Wylfa. Awgrymodd y Cadeirydd y dylai'r NDA anfon e-bost at fusnesau bach a chanolig pan fydd cyfleoedd neu ddigwyddiadau'n ymwneud â'r gadwyn gyflenwi yn codi. Cadarnhaodd Deborah fod holl ddigwyddiadau'r NDA yn cael eu hysbysebu ar y wefan. Roedd y contractau a gynigiwyd yn eithaf mawr yn aml iawn ac roedd yn anodd i gwmnïau llai gymryd rhan.

Holodd Gareth Winston Roberts a oeddent yn cydweithio â Pŵer Niwclear Horizon, gan fod hyn yn bwysig yn ei farn ef. Cadarnhawyd bod yr NDA mewn cysylltiad â Pŵer Niwclear Horizon. O safbwynt Magnox, roedd cytundeb galluogi ar waith gyda Pŵer Niwclear Horizon, a oedd yn edrych ar gydweithio o safbwynt yr adeilad newydd, a hwyluso'r broses o symud oddi wrth Magnox at Pŵer Niwclear Horizon i staff. O safbwynt y gadwyn gyflenwi, roedd Magnox yn gwmni cyhoeddus, a Pŵer Niwclear Horizon yn un preifat, gan olygu bod y ddau yn cael eu rheoleiddio mewn ffordd wahanol. Roedd Gareth Winston Roberts yn credu, o safbwynt economaidd-gymdeithasol, fod y ddau yn cyd-redeg, ac roedd yn teimlo bod hyn yn bwysig i Ogledd Orllewin Cymru gan fod angen i bobl yr ardal gael gwaith er mwyn adfywio a gwella cyflogaeth yn lleol.

Adroddwyd bod Cyfarwyddwr Safle Wylfa wedi eistedd ar Dasglu Llywodraeth Cymru sy'n ystyried effaith economaidd-gymdeithasol lleihau nifer y swyddi yn Wylfa a Trawsfynydd. Roedd adroddiad ARUP wedi cael ei ystyried yn ddiweddar. Mae Magnox, Hitachi a Pŵer Niwclear Horizon yn rhan o'r grŵp. Bydd argymhellion yn cael eu trosglwyddo i'r Cynulliad drwy'r grŵp.

I ymateb i gwestiwn gan Meg Roberts ynghylch a fyddai'r safle yn mynd yn ôl i fod yn gae gwyrdd, eglurwyd mai nod Magnox ar hyn o bryd yw cael gwared ar danwydd dros y 3 blynedd nesaf, yna erbyn diwedd 2018 byddai'r eitemau peryglus wedi mynd, a'r gwaith dymchwel yn dod i ben yn 2027. Byddai adeiledd adeilad yr adweithydd yn aros ac yn cael ei fonitro er mwyn gwneud yn siŵr ei fod yn cael cyn lleied o effaith â phosib ar yr amgylchedd. Fodd bynnag, nid oedd cynlluniau ar gyfer tirweddu gyda choed wedi cael eu cadarnhau eto. Dywedodd Tom Conway fod angen hybu cyflogi cwmnïau lleol i wneud y gwaith hwn ac nad oedd unrhyw reolaeth ar hyn o bryd dros y cwmnïau a gyflogwyd, h.y. gweithwyr tramor. Dywedodd y Cadeirydd na fyddai'r mater hwn yn cael ei drafod yn y fforwm.

8. Diweddariad y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear

Derbyniwyd adroddiad Nick Blackburn. Cam gweithredu – Jill Callander i ofyn i gynrychiolydd ONR fod yn bresennol yn y cyfarfod nesaf.

9. Diweddariad Cyfoeth Naturiol Cymru

Cyflwynodd Paul Wright yr adroddiad, a fyddai'n cael ei rannu'n electronig i'r aelodau ar ôl y cyfarfod. Ymddiheurodd Jill Callander fod hwn wedi cael ei adael allan o becyn y Cyfarfod mewn camgymeriad. Asiantaeth yr Amgylchedd oedd wedi gwneud y gwaith ar eu rhan a gwahoddwyd Rona Arkle i siarad. Dywedodd fod archwiliadau wedi cael eu cynnal yn ddiweddar i edrych ar drefniadau a roddwyd ar waith yng nghyswllt y bibell ollyngiadau. Roedd Asiantaeth yr Amgylchedd wedi gweld bod dulliau rheoli amgylcheddol da ar waith yn ystod eu hymweliad ac roedd y gwaith wedi cael ei wneud heb ddigwyddiadau amgylcheddol. Roedd yr asiantaeth wedi cael diweddariad gan y tîm gwastraff yn ddiweddar ac wedi bod yn gwneud gwaith ar drwyddedau hefyd. Roedd Asiantaeth yr Amgylchedd wedi cael gwybod am yr achos gyda'r ffan y soniwyd amdano yn gynharach yn y cyfarfod, ac wedi mynd ar drywydd hynny. Diolchwyd i Cyfoeth Naturiol Cymru ac i Asiantaeth yr Amgylchedd am eu hadroddiad.

Nid oedd unrhyw gwestiynau.

10. Diweddariad gan Reolwr Gwastraff Wylfa

Gohiriwyd yr eitem hon tan y cyfarfod nesaf.

11. Diweddariad ar y Cynllun Economaidd-gymdeithasol

Cyflwynodd Michelle Humphreys yr adroddiad a welir ym mhecyn y cyfarfod a soniodd am sefyllfa ariannol Wylfa. Roedd £30.1 miliwn wedi cael ei ddenu mewn arian cyfatebol.

Roedd 12 grŵp cymunedol wedi elwa o'r £6,000 oedd ar gael dryw'r gronfa Cymydog Da.

Soniwyd am yr arian a roddwyd ar gyfer Safle Sioe Amaethyddol Môn, prosiect a ariannwyd yn rhannol gan gynllun economaidd-gymdeithasol Wylfa ar gyfer gosod system wresogi newydd, seddi, ymestyn y pafiliwn, toiledau, ystafelloedd newid a goleuadau. Rhagwelwyd y byddai hyn yn denu 50k o ymwelwyr ychwanegol i Ynys Môn, gyda'r budd economaidd yn £1 miliwn.

Roedd uchafbwyntiau'r cynllun Economaidd-gymdeithasol wedi cael eu hargraffu ac roedd copi ar gael i bawb a oedd yn bresennol.

Yn sgil ad-drefnu strwythur y cwmni, dywedwyd mai Mair Jones fyddai'n gyfrifol am faterion economaidd-gymdeithasol. Byddai Michelle Humphreys yn dechrau swydd newydd fel Swyddog Cyfathrebu Rhanbarthol ar gyfer Wylfa a Trawsfynydd. Diolchodd y Cadeirydd i Michelle am ei gwaith gan ddymuno'n dda iddi ar gyfer y dyfodol.

Cafwyd sylw gan Meg Roberts ynglŷn â'r Ganolfan Brawf Sgiliau Adeiladu a'r Rhaglen Sgiliau Gyrru – Cymunedau yn Gyntaf Ynys Môn. Mynegodd bryder y byddai hyn yn tanseilio bywoliaeth busnesau sy'n bodoli'n barod. Eglurodd Michelle Humphreys mai dim ond am ddau ddiwrnod yr wythnos y byddai'r hyfforddwr gyrru yn gweithio a'i fod hefyd yn dysgu mecaneg yn rhan-amser.

Diolchodd Gareth Winston Roberts i'r staff am eu hamser a'u hymdrechion gyda'r cynllun Economaidd-gymdeithasol, gan fynegi ei fod yn werthfawr i economi'r ynys.

12. Sesiwn Holi ac Ateb Fforwm Agored

Nid oedd unrhyw gwestiynau eraill.

13. Unrhyw Fater Arall

Nid oedd dim materion eraill.

14. Y CYFARFOD NESAF – cynhelir y cyfarfod nesaf ar 6 Hydref 2016.

Daeth y cyfarfod i ben am 16.03.